# CYFLE CONSESIWN NEWYDD

## Parc Milburn, Y Rhws
## Trwydded am flwyddyn



**GWAHODDIR CYNIGION GAN BARTÏON Â DIDDORDEB**

Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg / This form is available in English

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

## 1 Cefndir

Sir arfordirol yn ne Cymru yw Bro Morgannwg. Mae amgylchedd o ansawdd uchel ac asedau naturiol sy'n cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ei gwneud yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer twristiaeth a gweithgareddau hamdden. Yn fwy diweddar, bu buddsoddiad sylweddol ar lefel ranbarthol a lleol gan ddenu busnesau o bob maint.


Mae'r Parc wedi'i leoli oddi ar y brif ffordd drwy'r Rhws ac mae'n agos at ddatblygiadau preswyl yn ardaloedd cyfagos y Rhws a Thrwyn y Rhws. Mae'n barc deniadol gyda golygfeydd dros y môr, cymysgedd o welyau blodau ffurfiol, pwll a mannau glaswelltog. Mae Parc Milburn yn cynnal Gŵyl Gerdd Haf y Rhws yn flynyddol

## 2 Trwydded

Mae'r Cyngor yn cynnig consesiwn yn y lleoliad a nodir yn goch ar y cynllun. Ni chaniateir masnachu dan unrhyw amgylchiadau o unrhyw leoliad heblaw am yr un a ddangosir ar y cynllun. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adleoli'r consesiwn i safle arall.

Bydd y defnydd a ganiateir ar gyfer gwerthu diodydd a bwyd poeth ac oer, llogi beiciau; canolfan gweithgareddau hamdden; a/neu fanwerthwyr ar raddfa fach sy'n berthnasol i'r ardal gyfagos.

Yn ystod digwyddiadau, caiff hawliau arlwyo eu hatal a chaniateir i fasnachwyr arlwyo dros dro weithredu. Rhagdybir y bydd y trwyddedai'n parhau i fod ar agor ac yn gweithio gyda threfnydd y digwyddiad. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i hysbysu'r trwyddedai bod rhaid cau yn ystod y digwyddiad.



## 3 Mynediad

Dim ond trwy Ffontygari Ffordd y bydd mynediad i'r safle, ar hyd y llwybr a ddangosir gan y llinell goch doredig ar y cynllun. Bydd y Trwyddedai'n cadw at gyfyngiadau diogelwch gyrru'r Parc. **Uchafswm pwysau unrhyw gerbyd sy'n dod i mewn i'r parc yw 250kg.**

## 4 Amseroedd Masnachu

Dim ond yn ystod oriau agor Parc Milburn (oriau golau dydd) y caiff y Trwyddedai fasnachu o'r Safle yn y parc. Mae amser cau Parc Milburn yn newid yn ôl y tymor ac ar hyn o bryd mae hynny tua 30 munud cyn iddi nosi. Mae'r parc yn cael ei agor am 08:00.

Mewn amgylchiadau arferol, mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd masnachu'n digwydd yn ddyddiol gydol cyfnod y drwydded am o leiaf 5 diwrnod yr wythnos a bydd yn dechrau dim hwyrach na 10am ac yn gorffen 30 munud ar yr hwyraf cyn i'r parc gau. Fodd bynnag, rhoddir hyblygrwydd i'r Trwyddedai o ran oriau masnachu o fewn oriau agor hysbys y parc er mwyn galluogi'r Trwyddedai i leihau colledion a geir pan fo'r parc yn dawel oherwydd tywydd gwael.

## 5 Telerau Gweithredu

Bydd angen i'r Trwyddedai weithredu'r consesiwn ar y sail ganlynol:-

a) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod o leiaf un oedolyn cymwys yn bresennol yn y consesiwn ac yn ei reoli trwy'r amser.

b) Ystyrir bod y Trwyddedai wedi archwilio'r holl gyfleusterau cyn dechrau'r Drwydded. Mae'r Trwyddedai'n cytuno i gymryd y consesiwn yn ei gyflwr presennol a'i roi yn ôl i'r Cyngor mewn cyflwr nad yw'n waeth na'r cyflwr presennol ar ddiwedd cyfnod y Drwydded.

c) Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am gadw lleoliad y consesiwn mewn cyflwr glân a thaclus.

d) Bydd y Trwyddedai'n annog y cyhoedd i ddefnyddio'r consesiwn a bydd yn sicrhau bod agwedd a safonau staff o'r safon uchaf ac yn cael eu cynnal trwy'r amser.

e) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau nad yw defnyddwyr cyfleusterau'r consesiwn yn achosi nac yn caniatáu unrhyw niwsans neu aflonyddwch i unrhyw aelod o'r cyhoedd neu i berchnogion eiddo cyfagos neu gerllaw.

f) Ni fydd y Trwyddedai'n caniatáu i unrhyw sbwriel gael ei adael ar y safle. Mae'r Trwyddedai yn gyfrifol am ddarparu biniau a threfnu i gael gwared â'r sbwriel.

g) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2024.

h) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y consesiwn yn cael ei weithredu mewn modd cyfrifol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ar bob adeg. Bydd rhestr brisiau'n cael ei harddangos yn glir yng nghyfleusterau'r consesiwn bob amser.

i) Rhaid i'r Trwyddedai gadw at god ymddygiad gyrwyr ar gyfer Parc yn y Fro. Os yw'r Gweithredwr neu ei Asiantau'n torri'r cod ymddygiad mewn modd difrifol, gellir rhoi dirwy o £50 i'r Trwyddedai am bob digwyddiad a adroddir. Dangosir manylion y llwybr cerbyd mewn glas toredig ar y cynllun.

j) Mae'r Trwyddedai'n gyfrifol am sicrhau bod ei staff a'i asiantau'n cael eu cyfarwyddyd ynghylch sut i ddod yn ddiogel i'r safle. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw atebolrwydd am weithred sy'n arwain at ddifrod i gerbyd.

k) Rhaid i'r cerbyd symudol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cludo neu fasnachu fod â threth ddilys, MOT ac yswiriant yn enw deiliad y Drwydded. Bydd y Trwyddedai yn cyflwyno tystiolaeth ddogfennol cyn i unrhyw drwydded gael ei rhoi.

l) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y cerbyd symudol / stondin fwyd yn ennill ac yn cynnal Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol o 3 neu uwch os yw'n briodol. Dylid cyflwyno copi o hyn wrth wneud cais am y tendr.

m) Ni ddylai'r Trwyddedai arddangos unrhyw hysbyseb neu boster ac eithrio'r rhestr brisiau a'r sgôr hylendid.

n) Bydd y cerbyd symudol/stondin fwyd yn gwbl symudol. Mae rhaid ei symud oddi yno ar ddiwedd pob diwrnod. Nid oes unrhyw drydan, dŵr na draen ar gael.

o) Ni ddylai'r Trwyddedai na'i staff achosi unrhyw annifyrrwch i ddefnyddwyr y safle na gwneud unrhyw beth a fyddai'n dwyn anfri ar enw da'r Trwyddedwr.

p) Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am gynnal contract rheoli plâu ar gyfer y Safle.

## 6 Defnyddiwr

Bydd y Drwydded arfaethedig yn caniatáu i'r Trwyddedai werthu hufen iâ, bwyd poeth, diodydd poeth, lluniaeth a diodydd meddal oer; llogi beiciau; canolfan gweithgareddau hamdden; a/neu fanwerthwyr ar raddfa fach sy'n berthnasol i'r ardal gyfagos.

Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol:

a) Ni cheir gwerthu na defnyddio unrhyw gynnyrch tybaco ar y Safle.
b) Ni chaniateir gwerthu nac yfed alcohol ar y Safle.
c) Ni chaniateir defnyddio plastigau untro fel y nodir yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023.
d) Ni chaniateir darparu anifeiliaid byw fel gwobrau.
e) Ni chaniateir lansio llusernau awyr Tsieineaidd.

## 7 Cyfnod y Drwydded

Bydd y Drwydded arfaethedig am gyfnod o flwyddyn gan ddechrau ar 1 Gorffennaf 2025.

## 8 Ffi'r Drwydded

Ffi'r Drwydded fydd y swm ar y ffurflen dendro lwyddiannus (h.y. swm ffi gyfan y Drwydded) ac ni fydd yn cynnwys yr holl ardrethi, trethi a threuliau eraill y gellir eu codi ar y consesiwn. Bydd angen talu ymlaen llaw am Ffi'r Drwydded am y flwyddyn gyntaf. Ni roddir unrhyw Drwydded Consesiwn ac ni chaniateir unrhyw weithredwr i ddechrau masnachu hyd nes y caiff Cytundeb y Drwydded ei gwblhau a bod Ffi'r Drwydded a'r costau wedi'u talu'n llawn.

O.N. Bydd ffi'r drwydded flynyddol sy'n cael ei thendro yn cynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

## 9 Ffioedd a chostau

Bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am dalu ffioedd syrfewyr Cyngor Bro Morgannwg, sef £150 (cant a hanner o bunnoedd) heb gynnwys TAW, a chostau Cyfreithiol y Cyngor ei hun, sef £187.45 (cant wyth deg saith punt a phedwar deg pump ceiniog) ar gyfer paratoi'r Drwydded a'i gwrthran.

## 10 Ardrethi a threuliau eraill

Bydd y Trwyddedai'n atebol am yr holl drethi, ardrethi a threuliau eraill sy'n daladwy yn sgil defnyddio'r Drwydded neu sy'n deillio o hynny.

## 11 Yswiriant

Bydd y Trwyddedai'n indemnio Bro Morgannwg yn erbyn unrhyw a phob hawl, cam gweithredu, gorchymyn, cost neu achos trydydd parti, gan gynnwys ar gyfer pob anaf boed yn angheuol neu beidio, am beth bynnag sy'n codi a sut bynnag y mae'n codi o ganlyniad i roi'r Drwydded arfaethedig.

Bydd y Trwyddedai'n cyflwyno tystiolaeth ddogfennol o bolisïau yswiriant a drefnwyd gyda Chwmni Yswiriant ag enw da, fel y gallai fod yn ofynnol gan y Pennaeth Cyllid (Is-adran Yswiriant).

**O.N.** Bydd angen dangos dogfennau yswiriant, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, cyn rhoi unrhyw drwydded. Rhaid i yswiriant fod yn enw'r deiliad Trwydded.

## 12 Parcio

Nid oes unrhyw barcio wedi'i gynnwys ar gyfer unrhyw gerbyd heblaw'r uned fwyd symudol.

## 13 Eiddo'r Cyngor

Pan fo Trwydded yn caniatáu defnyddio unrhyw eiddo sy'n berchen i'r Cyngor, tiriog neu fel arall, bydd y Trwyddedai'n sicrhau y caiff yr eiddo ei ddefnyddio gyda gofal rhesymol ac y caiff ei ddychwelyd i'r Cyngor mewn cyflwr nad yw'n waeth nag ar ddechrau cyfnod y Drwydded, ac eithrio traul deg, ddisgwyliedig. Caiff unrhyw eiddo a gollir neu a ddifrodir ei adnewyddu neu ei atgyweirio fel sy'n briodol i foddhad Rheolwr Gweithredol priodol y Cyngor.

## 14 Niwsans / Aflonyddwch

Ni fydd y Trwyddedai'n achosi unrhyw niwsans nac aflonyddwch wrth arfer telerau'r Drwydded ac ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu i sbwriel gael ei adael ar dir sy'n eiddo i Gyngor Bro Morgannwg. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd y Trwyddedai'n darparu (yng nghyffiniau agos safle'r consesiwn) cynwysyddion priodol er mwyn taflu sbwriel a bydd yn sicrhau y caiff pob sbwriel o'r fath ei symud a'i waredu'n briodol mor aml ag y bydd angen ond mewn unrhyw achos heb fod yn llai nag unwaith yr wythnos.

## 15 Dirymu

Ceidw Cyngor Bro Morgannwg fel Trwyddedwr yr hawl i ddirymu'r Drwydded ar unrhyw adeg wedi rhoi 24 awr o rybudd ysgrifenedig, os bydd y Trwyddedai (Trwyddedeion) yn torri unrhyw un o'r cyfamodau sydd yn y Drwydded.

## 16 Nodweddion

Bydd y Drwydded yn bersonol i'r Trwyddedai ac ni fydd, o dan unrhyw amgylchiadau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn gallu cael ei haseinio, ei throsglwyddo na'i gwaredu mewn ffordd arall heblaw am drwy ei hildio i'r Trwyddedwr.

## 17 Addasiadau

Ni chaniateir unrhyw newidiadau, addasiadau, diwygiadau nac ychwanegiadau i hawliau neu freintiau a roddir yn y Drwydded.

## 18 Rhwymedigaethau statudol

Bydd y Trwyddedai'n cydymffurfio â'r holl ofynion, rheoliadau, is-ddeddfau a rheolau cynllunio statudol a thrwyddedu, a gofynion neu gydsyniadau cyfreithiol eraill sy'n berthnasol neu sy'n codi o ganlyniad i roi'r Drwydded.

## 19 Diogelwch y Cyhoedd

Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol, unrhyw reoliadau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol a'r holl ofynion sydd ar y Trwyddedwr.

Bydd gan y Trwyddedwr yr hawl i gyfarwyddo'r Trwyddedai i roi'r gorau i fasnachu ar sail diogelwch y cyhoedd a bydd rhaid i'r Trwyddedai gydymffurfio ar unwaith. Os digwydd hyn, ad-delir y Trwyddedai ar sail pro-rata am y cyfnod y mae'r Trwyddedwr yn gwahardd masnachu.

## 20 Terfynu

Gall y naill ochr derfynu'r Drwydded wrth roi rhybudd o un mis yn ysgrifenedig. Os yw'r Trwyddedai'n terfynu'r cytundeb, ni wneir unrhyw ad-daliad o ffi'r Drwydded. Pe bai'r Cyngor yn terfynu'r cytundeb, yna ar yr amod bod y Trwyddedai/Trwyddedeion wedi bodloni holl delerau'r drwydded, gellir gwneud ad-daliad pro-rata am Ffi'r Drwydded, ac eithrio os caiff ei therfynu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf.

## 21 Annilysu

Ceidw'r Cyngor yr hawl, fel y barno, i beidio ag ystyried, neu i ystyried yn annilys, unrhyw dendr gan unrhyw berson, partneriaeth neu gwmni nad yw wedi cyflawni ei ymrwymiadau statudol neu delerau unrhyw drwydded, prydles neu gontract neu gytundeb arall yn y gorffennol gyda'r Cyngor, neu sy'n destun ymchwiliad gan Iechyd yr Amgylchedd.

Er mwyn osgoi amheuaeth, dylid nodi na fydd unrhyw dendr gan Drwyddedai blaenorol ar gyfer un o gonsesiynau'r Cyngor sydd ag ôl-ddyledion o ran Ffioedd Trwydded, Costau neu Ardrethi Annomestig ar y dyddiad cau ar gyfer tendrau yn cael ei ystyried.

## 22 Dim gwarant

Nid yw'r Cyngor yn gwneud nac yn rhoi unrhyw warant yn ymwneud â'r safle neu ei addasrwydd at ddefnydd arfaethedig y Trwyddedai.

## 23 Telerau Ychwanegol

Bydd y Drwydded yn cynnwys telerau ac amodau y mae Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg yn meddwl eu bod yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r consesiwn.

## 24 Deunyddiau'r Cynnig, Dyddiad Cau a Chyfeiriad i Gyflwyno Cynigion

Bydd angen i gynigwyr gyflwyno cynnig manwl a fydd yn cynnwys:

A. **Ffi y Cynnig;**
B. **Cynllun Busnes a Gweithredu Cryno (uchafswm o 500 gair);**
C. **Effaith Amgylcheddol (uchafswm o 500 gair);**
D. **Sgôr Hylendid Bwyd Cenedlaethol os yw'n briodol;**
E. **Copi o'r Fwydlen Arfaethedig os yw'n briodol;**
F. **Copi o dystysgrifau priodol i'w defnyddio e.e. asesiad risg, GDG ac ati**

Y dyddiad cau caeth i gyflwyno ceisiadau tendr fydd **12 (hanner dydd) 3 Mehefin 2025**

Rhaid cyflwyno'r cais mewn amlen gyda'r Label Tendr swyddogol wedi'i glynu ar y tu allan dan y teil **"Parc Milburn, Consesiwn Y Rhws"**. Rhaid i'r amlen fod wedi'i selio'n ddiogel ac NI ddylai fod arni unrhyw ddeunydd neu farc gwahaniaethol fel y gellid adnabod yr anfonwr/cynigydd. Er mwyn osgoi amheuaeth, **ni dderbynnir cynigion a gyflwynir drwy e-bost.**

Dylid cyflwyno cynigion yn llawn ac yn y dull a nodir uchod i:

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol,**
**Cyngor Bro Morgannwg**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Heol Holltwn**
**Y Barri**
**CF63 4RU**

## 25 Dethol y cynigydd a ffefrir a'r meini prawf sgorio a'r pwysoliad

Caiff y Cynigydd a Ffefrir ei ddethol ar ôl i'r Cyngor adolygu ac asesu pob cynnig. Bydd y Cyngor yn sgorio ac yn graddio pob un o'r cynigion ar y sail ganlynol:

a. **Y cynnig rhentu a gynigir (pwysoliad 70%)** ar sail y "Cynnig Rhentu" a gyflwynir gan y cynigiwr; a'r

b. **Datganiad o fwriad (pwysoliad 30%**) yn seiliedig ar ansawdd y cynnig, nodwedd gwerthu unigryw'r busnes arfaethedig, sut bydd y busnes yn cydweddu a safonau a gwerthoedd Parc Milburn a sut fydd y busnes arfaethedig yn cyfrannu at bolisi Prosiect Sero'r Cyngor.

**Deddf Camliwio**

Cynigir yr eiddo yn dibynnu ar gontract a heb ragfarn. Ceidw'r Cyngor yr hawl i wrthod unrhyw gynnig a wneir ac nid oes ymrwymiad arno i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig arall ar gyfer yr eiddo.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y manylion hyn yn gywir, ond ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gamliwiad a wneir yn y manylion hyn neu ar lafar. Rhaid i unrhyw barti â diddordeb fodloni ei hun bod y manylion hyn yn gywir. Nodir y manylion hyn fel canllaw cyffredinol yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw gynnig neu gontract.